
Digwyddiadau Rhestredig

Nodi gwasanaethau teledu sydd am ddim i'w gwyllo ac ar gael yn eang

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 26 Hydref 2018

Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn Ymatebion: 18 Ionawr 2018

Gair am y ddogfen hon

Bwriad y rheolau 'digwyddiadau rhestredig' yw sicrhau bod rhai digwyddiadau o ddiddordeb cenedlaethol, fel cystadlaethau chwaraeon o bwys, ar gael i'w gweld yn fyw, ac am ddim, gan y gynulleidfa ehangaf bosib.

Rôl Ofcom yw cynnal rhestr o sianelau teledu sydd am ddim i'w gwyllo ac ar gael yn eang.

Cyhoeddwyd y rhestr gyfredol o wasanaethau sy'n cymhwyso yn 2008. Yng ngoleuni datblygiadau yn y modd mae gwylwyr yn gwyllo'r teledu, yn enwedig o ran y cynnydd mewn gwyllo drwy IPTV a'r defnydd o ddyfeisiau ar wahân i deledu i wneud hynny, rydym yn ystyried ei bod yn briodol cyhoeddi rhestr wedi'i diweddarau. Felly rydym yn ymgynghori ar y fethodoleg rydym yn bwriadu ei defnyddio i asesu pa wasanaethau sy'n gymwys i fod ar y rhestr.

Nid ydym yn ystyried beth yw'r digwyddiadau o ddiddordeb cenedlaethol, oherwydd penderfynir ynghylch hynny gan y Llywodraeth. Hefyd nid ydym yn ystyried y rheolau cysylltiedig ar gyfer darlledu'r digwyddiadau hyn neu'r gofyniad bod rhaid i sianelau teledu ar y rhestr fod am ddim i'w gwyllo ac ar gael yn eang, gan mai mater i'r Senedd yw hynny.

1. Crynodeb gweithredol

- 1.1 Bwriad y rheolau 'digwyddiadau rhestredig' yw sicrhau bod rhai digwyddiadau o ddiddordeb cenedlaethol ar gael i'w gweld yn fyw, ac am ddim, gan y gynulleidfa ehangaf bosib. Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n llunio'r rhestr o ddigwyddiadau ac ar hyn o bryd mae'n cynnwys cystadlaethau chwaraeon o bwys, fel Cwpan y Byd FIFA a Rowndiau Terfynol Twrnamaint Tennis Wimbledon. Rôl Ofcom yw cynnal rhestr o sianelau teledu sydd am ddim i'w gwyllo ac yn cael eu derbyn gan 95% o boblogaeth y DU. Cyfeirir at sianelau teledu sy'n bodloni'r ddau amod cymhwyso yma fel "gwasanaethau sy'n cymhwyso".
- 1.2 Mae'r ddogfen yma'n nodi ein cynigion ni ar gyfer diweddarau'r rhestr o wasanaethau sy'n cymhwyso, a adolygwyd ddiwethaf yn 2008. Nid yw'n ystyried beth yw'r digwyddiadau o ddiddordeb cenedlaethol, oherwydd penderfynir ynghylch hynny gan y Llywodraeth. Hefyd nid yw'n ystyried y rheolau cysylltiedig ar gyfer darlledu'r digwyddiadau hyn na'r diffiniad o wasanaethau sy'n cymhwyso, gan mai mater i'r Senedd yw hynny.
- 1.3 Rydym yn adolygu ac yn diweddarau'r rhestr o wasanaethau sy'n cymhwyso, gan ystyried y newidiadau arwyddocaol yn y ffyrdd mae pobl yn gwyllo'r teledu nawr, yn benodol y cynnydd mewn gwyllo ar-lein a'r defnydd o ddyfeisiau ar wahân i'r teledu. Derbynnir y rhan fwyaf o wasanaethau teledu drwy lwyfan teledu digidol sy'n darlledu, fel lloeren (Sky, Freesat), cebl (Virgin Media) neu deledu Daearol Digidol (Freeview). Mae nifer cynyddol o wylwyr yn dewis derbyn gwasanaethau ar y rhyngwrwyd (IPTV)¹, naill ai ochr yn ochr neu heb lwyfan teledu sy'n darlledu. Er enghraifft, efallai y bydd cartref yn gallu derbyn gwasanaethau a ddarlledir drwy DTT ar eu teledu sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngwrwyd, sydd hefyd yn gallu cael mynediad i wasanaethau IPTV. Mae llawer o bobl yn gallu derbyn yr un gwasanaeth ar lwyfannau niferus, ond nid yw pob gwasanaeth neu lwyfan teledu ar gael ledled y DU.
- 1.4 Rydym yn ymgynghori ar ein methodoleg arfaethedig i benderfynu ar y rhestr wedi'i diweddarau o wasanaethau sy'n cymhwyso. Y ddwy agwedd allweddol ar ein methodoleg, sy'n adlewyrchu datblygiadau yn y ffordd mae cynulleidfaoedd yn derbyn ac yn gwyllo rhaglenni teledu, yw:
 - I ddechrau, yn 2008, aethom ati i asesu a oedd gwasanaeth yn cael ei dderbyn ar lwyfannau darlledu yn unig. Nawr rydym yn bwriadu asesu a yw sianel yn bodloni'r trothwy derbyn o 95% gan ystyried yr holl lwyfannau teledu, gan gynnwys IPTV;
 - Yn ail, yn 2008, aethom ati i asesu a oedd gwasanaeth yn cael ei wyllo ar deledu. Nawr rydym yn bwriadu mesur derbyniad sianel deledu'n seiliedig ar "brif sgrin" cartref ar gyfer gwyllo sianelau teledu; gall hyn fod yn deledu, ond yn yr un modd mewn rhai cartrefi, gall fod yn gyfrifiadur neu ddyfais dabled.
- 1.5 Gan ddefnyddio ein methodoleg arfaethedig, ni fydd sianel deledu'n bodloni'r ddau amod cymhwyso oni bai ei bod (a) ar lwyfannau lloeren neu gebl, bod modd i'n holl wylwyr DTT

¹ Mae posib ffrydio gwasanaethau IPTV gan ddarparwyr llwyfannau fel BT neu TalkTalk, neu gellir eu darparu 'drwy fand eang' gan ddarparwyr fel UKTV Player

ei gwyllo a'i bod hefyd yn cael ei ffrydio ar IPTV, ac (b) yn cael ei darparu naill ai am ddim neu fel rhan o becyn tanysgrifio 'sylfaenol'.

- 1.6 At ddibenion dynodol, ar sail y data a ddefnyddiwyd at ddiben yr ymgynghoriad hwn, byddai'r sianelau teledu canlynol yn bodloni'r amodau hynny: BBC 1, BBC 2, Rhwydwaith Channel 3 (a ddarlledir fel ITV, STV, UTV), Channel 4, ITV2, ITV3, BBC 4, More 4, Film 4, ITV4, CBBC, CBeebies, BBC News, a BBC Parliament. Rydym yn pwysleisio mai rhestr ddynodol yw hon yn seiliedig ar ein methodoleg arfaethedig. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn dod i benderfyniad ynghylch y fethodoleg y byddwn yn ei defnyddio, a byddwn yn rhoi ein methodoleg ar waith gan ddefnyddio gwybodaeth ddiweddar i ddiweddar a chyhoeddi'r rhestr o wasanaethau sy'n cymhwys.
- 1.7 Rydym yn gofyn am safbwyntiau ar ein cynigion yn awr. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 18 Ionawr.